15/01/2026

**Ymarferion Argyfwng**

Annwyl Riant neu Warcheidwad,

Rwy'n ysgrifennu atoch i'ch hysbysu am ein hymrwymiad parhaus i ddiogelwch a lles pob disgybl yn ein hysgolion. Diogelwch eich plant yw ein prif flaenoriaeth, ac mae gennym weithdrefnau cadarn sydd wedi eu profi ar waith i ymateb yn gyflym ac yn effeithiol i unrhyw argyfyngau a allai godi.

Fel rhan o'n hymrwymiad i gynnal y safonau uchel hyn, bydd ein hysgolion yn cynnal cyfres o ymarferion wedi'u paratoi'n dda ac wedi'u cynllunio'n ofalus trwy gydol y flwyddyn. Mae'r ymarferion hyn wedi'u cynllunio i brofi a mireinio ein gweithdrefnau a'n strategaethau brys, gan sicrhau bod staff a disgyblion yn hyderus ynghylch y camau priodol pe byddai argyfwng go iawn yn digwydd.

Gall y mathau o ddriliau y byddwn ni'n eu cynnal gynnwys driliau tân, driliau yn sgil argyfwng nwy, gweithdrefnau cloi, ac ymarferion diogelwch perthnasol eraill. Mae’r ymarferion hyn yn arferol ac yn rhan hanfodol o'n hymdrechion parhaus i gadw pawb yn ein cymunedau ysgol yn ddiogel.

Bydd y penderfyniad ynghylch cynnwys disgyblion yn yr ymarferion hyn yn benderfyniad i bob ysgol unigol. Rydym yn deall y gall rhai plant weld driliau o'r fath yn annifyr. Fe fydd ysgolion yn mynd i'r afael â'r ymarferion hyn gyda sensitifrwydd a byddant yn gwneud popeth posibl i leihau unrhyw straen neu bryder i ddisgyblion. Bydd pob ysgol yn penderfynu sut i fynd i'r afael â'r ymarferion hyn, gan gynnwys penderfynu pryd a sut i esbonio pwrpas pob dril i ddisgyblion a sut i roi sicrwydd cyn, yn ystod ac ar ôl y digwyddiad.

Mae'n bwysig eich bod yn deall nad yw'r ymarferion hyn yn achos pryder. Nid oes angen poeni na chysylltu â'r ysgol yn ystod y driliau hyn. Maent yn drefniant rhagofalus i sicrhau bod pawb yn barod a bod ein gweithdrefnau'n effeithiol wrth ddiogelu eich plant.

Diolch am eich cefnogaeth a'ch dealltwriaeth barhaus wrth i ni weithio gyda'n gilydd i gynnal yr amgylchedd mwyaf diogel posibl yn ein hysgolion. Os oes gennych unrhyw gwestiynau cyffredinol am ein gweithdrefnau brys, mae croeso i chi gysylltu ag ysgol eich plentyn – ond ni fydd angen unrhyw weithredu gan rieni a gofalwyr yn ystod y driliau eu hunain.

Yn gywir

**Aneirin Thomas**
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg**
Addysg a Hamdden, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE

**Head of Education Services**
Education and Leisure, 3 Spilman Street, Carmarthen SA31 1LE

Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

sirgar.llyw.cymru
carmarthenshire.gov.wales

15/01/2026

**Emergency Procedures**

Dear Parent or Carer,

I am writing to you to inform you about our ongoing commitment to the safety and wellbeing of all pupils within our schools. The safety of your children is our highest priority, and we have robust and proven procedures in place to respond swiftly and effectively to any emergencies that may arise.

As part of our commitment to maintaining these high standards, our schools will be conducting a series of well-prepared and carefully planned exercises throughout the year. These exercises are designed to test and refine our emergency procedures and strategies, ensuring that staff and pupils are confident regarding the appropriate actions should a real emergency occur.

The types of drills schools will be carrying out may include fire drills, gas leaks, lockdown procedures, and other relevant safety exercises. Please be rest assured that these activities are standard practice and an essential part of our ongoing efforts to keep everyone in our school communities safe.

The decision regarding whether to include pupils in these exercises will rest with each individual school. We understand that some children may find such drills unsettling. Please be assured that schools will approach these exercises with sensitivity and will do everything possible to minimise any stress or anxiety for pupils. Each school will determine how to approach these exercises, including deciding when and how to explain the purpose of each drill to pupils and how to provide reassurance before, during, and after the event.

It is important for all parents and carers to understand that these exercises are not cause for alarm. There is absolutely no need to be concerned or to contact the school during these drills. They are simply a precautionary measure to ensure that everyone is prepared and that our procedures are effective in safeguarding your children.

Thank you for your ongoing support and understanding as we work together to maintain the safest possible environment in our schools. Should you have any general questions about our emergency procedures, please feel free to contact your child’s school at a convenient time – but there will be no need for any action from parents and carers during the drills themselves.

Yours sincerely

**Aneirin Thomas**
**Pennaeth Gwasanaethau Addysg**
Addysg a Hamdden, 3 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LE

**Head of Education Services**
Education and Leisure, 3 Spilman Street, Carmarthen SA31 1LE